

2020 Rhif (Cy.)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio)
(Rhif 2) 2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"). Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn flaenorol gan:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595) (Cy. 136);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/714) (Cy. 160);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/726) (Cy. 163).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod o 14 o ddiwrnodau.

Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio. Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio

Rhyngwladol. Cyfeirir at y gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i dynnu Sbaen oddi ar y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth drosiannol. Mae hyn yn ymwneud â pherson a oedd wedi bod yn Sbaen ddiwethaf o fewn y 14 diwrnod cyn iddo gyrraedd Cymru a chyn i'r diwygiad a wnaed gan reoliad 2 ddod i rym. Os yw'r person hwnnw'n gadael Sbaen yn fuan cyn i'r diwygiad ddod i rym ac yn cyrraedd Cymru wedi hynny mae'r person hwnnw i'w drin (at ddibenion rheoliad 7 (1) (b) ac 8 (1) o'r Rheoliadau teithio rhyngwladol) fel pe bai wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt. Yn yr un modd os yw'r person wedi gadael Sbaen ar unrhyw adeg o fewn y 14 diwrnod cyn i'r diwygiad ddod i rym ac yn cyrraedd Cymru o le arall sydd wedi'i eithrio (neu o rywle arall yn y DU) ar ôl i'r diwygiad ddod i rym, mae'r person hwnnw hefyd i'w drin fel pe bai wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

2020 Rhif (Cy.)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio)
(Rhif 2) 2020**

Gwnaed 25 Gorffennaf 2020

Yn dod i rym 26 Gorffennaf 2020

Gosodwyd gerbron *Senedd*
Cymru 27 Gorffennaf 2020

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, dod i rym a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 26 Gorffennaf 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol" yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(2).

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(2) O.S. 2020/574 (Cy. 132) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/714 (Cy. 160) ac O.S. 2020/726 (Cy. 163).

Diwygiad i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol mewn perthynas â Sbaen

2. Yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol hepgorer "Sbaen".

Darpariaeth drosiannol

3.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys i berson ("P") a—

- (a) cyrhaeddodd Cymru ar ôl i'r diwygiad a wneir gan reoliad 2 ddod i rym, a
- (b) oedd yn Sbaen ddiwethaf—
 - (i) o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n gorffen ar y diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, a
 - (ii) cyn i'r diwygiad hwnnw ddod i rym.

(2) I osgoi unrhyw amheuaeth, mae P i'w drin at ddibenion rheoliadau 7(1)(b) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel pe bai wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt pan oedd P yn Sbaen ddiwethaf.

(3) Yn y rheoliad hwn, mae i "gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt" yr un ystyr ag yn rheoliad 9(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.



Vaughan Gething
Y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o
Weinidogion Cymru
25 Gorffennaf 2020